## YR ATODLEN

Rheoliad 2

### DIWYGIADAU I'R FFURFLEN O DAN Y TEITL "CEISIADAU PERCHEN-FEDDIANNYDD A THENANT AM GRANTIAU ADNEWYDDU TAI"

**1.** Yng nghwestiwn 3.31, yn y lle priodol, mewnosodwch—

"Taliad o gronfeydd mynediad (myfyrwyr) £

£

**Nodyn 86D**

*(Rhowch fanylion yr hyn y mae'r taliadau wedi'u bwriadu ar ei gyfer, e.e. gwres, prydau)".*

**2.** Yng nghwestiwn 3.34, yn lle "**a 90B**", rhowch "**, 90B a 90C**".

**3.** Ar ôl cwestiwn 3.34, mewnosodwch—

> "**3.34A** Rhowch fanylion unrhyw daliad a wnaed i chi neu i'ch partner ar 1 Chwefror 2001 neu ar unrhyw adeg wedyn yn ymwneud â charchariad neu gaethiwed gan y Japaneaid yn ystod yr Ail Ryfel Byd. **Nodyn 90D"**

**4.** Yng nghwestiwn 3.38, mewnosodwch—

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Mae'r gofal yn cael ei ddarparu gan ddarparydd gofal plant a gymeradwywyd gan gorff a achredwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; | _ | ⊔ |

**5.** Yn nodyn 59, ar ôl y geiriau "at ddibenion budd-dâl plant", mewnosodwch ", neu sydd yng ngofal awdurdod lleol ac sydd wedi'i leoli gyda chi gan yr awdurdod".

**6.** Yn nodyn 85, ar ôl "(darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr)", mewnosodwch—

";

— grant ar gyfer prydau ysgol i blant dibynnol, neu ar gyfer prydau i blant dibynnol 3 neu 4 oed, a dalwyd yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**1**)

**7.** Ar ôl nodyn 86C, mewnosodwch—

> "**86D.** Rhaid i chi gynnwys unrhyw daliad o gronfeydd mynediad a fwriedir i'ch galluogi chi fel myfyriwr i dalu costau byw cyffredin - cost bwyd, tanwydd yr aelwyd, rhent, dillad, ac esgidiau - taliadau dwr neu'r Dreth Gyngor. Anwybyddir taliadau cronfeydd mynediad at y dibenion hyn hyd at £20 yr wythnos, ond fe ddylent gael eu cynnwys beth bynnag. Nid oes angen i chi gynnwys unrhyw daliadau o gronfeydd mynediad a roddwyd at ddibenion eraill.".

**8.** Ar ôl nodyn 90B, mewnosodwch—

> "**90C.** Peidiwch â chynnwys—

(**1**) 1998 p.30.

— unrhyw gyfandaliad lwfans cynhaliaeth sy'n daladwy mewn perthynas â chymryd rhan mewn rhaglen parth cyflogi;

— unrhyw daliad mewn cysylltiad â chynllun i leihau tan-feddiannaeth, a wnaed o dan reoliad 11 o Reoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000(**2**).

**90D.** Os oes taliad ex gratia o £10,000 wedi'i wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 1 Chwefror 2001 neu wedyn oherwydd bod (a) chi, (b) eich partner, (c) priod i chi sydd wedi marw, neu (ch) priod i'ch partner sydd wedi marw, wedi'u carcharu neu wedi'u caethiwo gan y Japaneaid yn yr Ail Ryfel Byd, caiff y swm hwnnw ei anwybyddu fel cyfalaf."(**3**).

(**2**) Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Taliadau i Leihau Tan-feddiannaeth) 2000, O.S. 2000/637.
(**3**) Rheoliadau Diwygio Nawdd Cymdeithasol (Anwybyddu Cyfalaf) 2001, O.S. 2001/22.